PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD 2000 - 2001

Cyflwyniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 10.

2. Mae Rheol Sefydlog 10.2 yn darparu fel a ganlyn:

> "Bydd y pwyllgorau rhanbarth yn cynghori'r Cynulliad ynglyn â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno." Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn y rhanbarth.

3. Mae 17 o aelodau:

Peter Black	Gorllewin De Cymru	Democratiaid Rhyddfrydol
Nicholas Bourne	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ceidwadwyr
Alun Cairns	Gorllewin De Cymru	Ceidwadwyr
Cynog Dafis	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Plaid Cymru
Andrew Davies	Gorllewin Abertawe	Llafur
Glyn Davies	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ceidwadwyr
Janet Davies	Gorllewin De Cymru	Plaid Cymru
Richard Edwards	Preseli Sir Benfro	Llafur
Delyth Evans	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Llafur
Val Feld	Dwyrain Abertawe	Llafur

Brian Gibbons	Aberafan	Llafur
Christine Gwyther	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	Llafur
Edwina Hart	Gwyr	Llafur
Helen Mary Jones	Llanelli	Plaid Cymru
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru	Plaid Cymru
Gwenda Thomas	Castell-nedd	Llafur
Rhodri Glyn Thomas	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	Plaid Cymru

4. Alun Cairns oedd cadeirydd y Pwyllgor am y 12 mis o fis Gorffennaf 2000 ymlaen.

Cyfarfodydd

5. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith rhwng Gorffennaf 2000 a Mehefin 2001 a lluniwyd yr agenda ar sail awgrymiadau gan aelodau a cheisiadau gan bwyllgorau pwnc neu Weinidogion i ystyried materion penodol.

Dull gweithio

6. Yn gyffredinol, penderfynodd y Pwyllgor fwrw ymlaen â'r dull gweithio a bennwyd yn ei adroddiad diwethaf, ond mae wedi dod yn gynyddol ymwybodol o werth cynnwys y cyhoedd yn ei waith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyhoedd wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau ar eitemau ar yr agenda yn ogystal â chyfrannu yn ystod y sesiwn meicroffon agored.

7. Mae'r Pwyllgor yn parhau i gynnal deialog rheolaidd â Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru, yn enwedig am hynt Amcan Un. Gwahoddir y Fforwm i gyfrannu i bob cyfarfod.

Mannau Cyfarfod

8. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod mewn canolfannau cymuned a chlybiau cymdeithasol ac mae'r rhain i'w gweld yn fwy deniadol i'r cyhoedd na'r lleoliadau a ddefnyddiwyd mewn cyfarfodydd cynharach. Mae'r Clerc yn parhau i geisio cyngor yr Aelod Cynulliad lleol ac unrhyw grwp mynediad i bobl anabl wrth ddewis mannau cyfarfod.

Y Materion

9. Mae'r pwyllgor wedi ymdrin ag ystod o eitemau agenda penodol o blith holl rychwant cyfrifoldebau'r Cynulliad.

Adfywio Cymunedau

10. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar adfywio cymunedau, a rhoddwyd y newyddion diweddaraf am ddatblygiad Strategaeth Weithredu Cymoedd y De a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan nifer o grwpiau a oedd wedi ymgymryd â phrosiectau llwyddiannus ar gyfer adfywio cymunedau.

Iechyd

11. Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd aelodau o Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ac Awdurdod Iechyd Morgannwg eu Rhaglenni Gwella Iechyd i'r Pwyllgor.

Pobl Ifanc

12. Ym mis Ionawr, clywodd y Pwyllgor farn pobl ifanc ynghylch y materion mwyaf pwysig iddynt. Yr oedd y rhain yn cynnwys ffïoedd hyfforddi myfyrwyr, diogelu glannau Cymru a darparu cyfleusterau hamdden priodol ar gyfer pobl ifanc. Cafwyd cyflwyniadau gan ddisgyblion o Ysgol Esgob Vaughan ac Ysgol Gyfun Ystalyfera, gan Ymddiriedolaeth Adfywio Clydach, gan Gymdeithas y Geidiaid a chan Fforwm Ieuenctid Abertawe.

13. Gwnaeth ansawdd y cyflwyniadau ac aeddfedrwydd barn y cyflwynwyr argraff ar y Pwyllgor a chytunodd yr Aelodau y dylid trosglwyddo'r sylwadau a leisiwyd i Gabinet y Cynulliad. Ar ôl hynny, cafodd adroddiad o'r cyfarfod ei anfon at Weinidogion y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes; Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg; Datblygu Economaidd; a Chyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ac anfonwyd copi o'r adroddiad hwnnw at Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc hynny.

Yr Economi Wledig

14. Roedd cyfarfod mis Mawrth i fod i gael ei gynnal yn ystod y cyfnod pan welwyd yr argyfwng clwy'r traed a'r genau yn gwaethygu. Oherwydd y pwnc dan sylw a'r lleoliad (Sanclêr), penderfynwyd peidio â chynnal y cyfarfod. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd at bwnc yr economi wledig yn yr hydref.

Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad

15. Ym mis Mai, trafododd y Pwyllgor yr Adolygiad o weithdrefn y Cynulliad a chlywed

sylwadau nifer o gyrff y mae'r Cynulliad yn gweithio gyda hwy, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. O ganlyniad i hynny, bydd y Pwyllgor, ar y cyd â'r Grwp Adolygu, yn ystyried ei rôl, yn enwedig mewn cysylltiad â busnes arall y Cynulliad. Mae adroddiad ar ystyriaethau'r Pwyllgor wedi ei gyflwyno i Grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad.

16. Yn ystod yr un cyfarfod, bu cynrychiolwyr o Swyddfa Ranbarthol De-orllewin Cymru ELWa, y corff hyfforddiant ac addysg ar ôl 16 newydd yng Nghymru, yn sôn wrth y Pwyllgor am eu cynlluniau.

Casgliad

17. Mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i ystod eang o faterion yn ystod y flwyddyn ac mae wedi cael llawer o gyflwyniadau diddorol ac addysgiadol. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

18. Yr ydym wedi llwyddo i ennyn diddordeb y cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd ac yr wyf yn gobeithio y bydd modd adeiladu ar hyn yn y dyfodol, ac y bydd mwy o'r cyhoedd yn dod i'r cyfarfodydd. Yn awr, mae angen i'r Pwyllgor ddatblygu ei rôl a sicrhau bod ei waith yn cael ei fwydo yn ôl i mewn i waith ehangach y Cynulliad.

19. Mae Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn Swyddfa'r Llywydd gyda golwg ar wella cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfodydd. Erbyn hyn, mae Cangen Addysg y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn cysylltu ag ysgolion yn yr ardal lle cynhelir y cyfarfod ac yr wyf yn gobeithio y bydd ysgolion yn annog grwpiau o ddisgyblion i ddod i'r cyfarfodydd. At hynny, mae'n bwysig bod Aelodau'r Cynulliad yn hysbysebu'r cyfarfodydd drwy eu rhwydweithiau lleol eu hunain, yn enwedig pan fydd y Pwyllgor i fod i gyfarfod yn eu hardaloedd hwy.

Alun Cairns
Cadeirydd

ATODIAD

PWYLLGOR RHANBARTH DE-ORLLEWIN CYMRU

AMSERLEN CYFARFODYDD

Gorffennaf 2000 i Fehefin 2001

Dyddiad	Lleoliad	Agenda
5 Gorffennaf 2000	Canolfan Hamdden, Castellnewydd Emlyn	Ethol Cadeirydd; Blaenraglen Waith; Meicroffon Agored; Dwr Cymru/Welsh Water; Amcan Un - Cynlluniau Rhanbarthol a Chynlluniau Gweithredu Lleol.
27 Hydref 2000	Y Ganolfan Gymuned, Gwauncaegurwen	Strategaeth Weithredu Cymoedd y De; Meicroffon Agored; Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.
8 Rhagfyr 2000	Neuadd y Frenhines, Arberth	Cynllun Datblygu Hygyrchedd Deng Mlynedd ar gyfer y De-Orllewin; Awdurdod Iechyd Dyfed Powys - Rhaglen Gwella Iechyd; Meicroffon Agored; Iechyd Morgannwg - Rhaglen Gwella Iechyd.
26 Ionawr 2001	Neuadd y Gymuned, Clydach	Materion o bwys i ddisgyblion o Ysgol Gyfun Ystalyfera ac Ysgol Esgob Vaughan; Ymddiriedolaeth Adfywio Clydach; Meicroffon Agored; "Ymestyn Hawliau" - Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru.

23 Mawrth 2001	Y Ganolfan Hamdden, Sanclêr	Ni chafodd y cyfarfod ei gynnal.
11 Mai 2001	Clwb y Gweithwyr, Castell-nedd	Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad; Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa); Meicroffon Agored.